# CABINET

## DYDD LLUN, 2 RHAGFYR 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| G. Davies | H.A.L. Evans | L.D. Evans | P.M. Hughes |
| A.C. Jones | A. Lenny | E.G. Thomas | J. Tremlett |
| A. Vaughan Owen | | | |

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir)**
Cynghorydd D.M. Cundy

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr
O. Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg, Plant a Gwasanaethau Teuluoedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
S. Murphy, Pennaeth y Gyfraith Llywodtaethau a Gwasanaethau Sifil
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
H. Pugh, Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell- 10.00 - 10.30 yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| C.A. Jones | 8 – Ymchwiliad Adran 8 Cyngor Sir Caerfyrddin i lifogydd yn 34 eiddo yn Llansteffan dros gyfnod y flwyddyn newydd 2023/24 | Yn byw yn yr ardal y mae'r llifogydd yn effeithio arni |
| A. Lenny | 8 – Ymchwiliad Adran 8 | Mae aelodau agos o'r teulu |

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

| | | |
|---|---|---|
| | Cyngor Sir Caerfyrddin i lifogydd yn 34 eiddo yn Llansteffan dros gyfnod y flwyddyn newydd 2023/24 | wedi dioddef llifogydd yn yr ardal. |

**3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 18 TACHWEDD 2024**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2024 yn gywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

Cafodd y Cabinet i'w hystyried Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol y Cyngor a luniwyd yn unol â gofynion Adran 10.7 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl Awdurdodau Lleol gyhoeddi eu strategaeth a'u cynllun rheoli perygl llifogydd lleol. Roedd y Strategaeth wedi'i chefnogi gan gynllun mwy tactegol sy'n egluro sefyllfa'r awdurdod o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a'i nodau ar gyfer 2030 a sut y bydd yn eu cyflawni.

Nododd y Cabinet mai'r cynllun oedd yr ail strategaeth a luniwyd o dan y Ddeddf (yr un cyntaf ym mis Mai 2013) a'i phrif ddibenion oedd:

1. Nodi'r asesiad strategol o berygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin lle'r oedd 12,600 o gyfeiriadau mewn perygl o lifogydd
2. Ffurfioli a chytuno ar y nod strategol i leihau nifer yr anheddau a'r busnesau sydd mewn perygl o lifogydd.
3. Ffurfioli pum nod strategol a sut maent yn cyd-fynd â'r nodau cenedlaethol:
   - Moderneiddio a datblygu *dull thematig sy'n seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd a rheoli'r arfordir.*
   - Dod yn *gyfoethog o ran data a gwybodaeth i hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau.*
   - *Hyrwyddo dulliau o reoli llifogydd yn naturiol, draenio cynaliadwy ac atebion seiliedig ar natur;*
   - *Addysgu, cynghori a grymuso ein cymunedau i ddod yn fwy cydnerth.*

· *Cynorthwyo cymunedau i addasu a hyrwyddo hyn a gweithio mewn partneriaeth.*

4. Cytuno ar y 10 mesur a nodir yn yr adroddiad a fydd yn ei dro yn cyflawni'r 5 nod strategol uchod

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARYMELL I'R CYNGOR fod Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei chymeradwyo.**

## 7. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar fabwysiadu Strategaeth Toiledau Lleol 2024/26 yr Awdurdod a'r camau gweithredu cysylltiedig a gafodd eu llunio yn unol â Rhan 8 o Ddeddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, a oedd yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Nodwyd, er nad oedd dim gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus, ac nad oedd y ddyletswydd i baratoi strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus, roedd yn ofynnol iddynt gymryd agwedd strategol at sut y gallai'r cyfleusterau hyn gael eu darparu a'u defnyddio gan y boblogaeth leol. Wrth wneud hynny, disgwylir y byddai awdurdodau lleol yn ystyried amrywiaeth lawn o opsiynau ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Strategaeth Toiledau Lleol 2024/26 yn cael ei chymeradwyo.**

## 8. YMCHWILIAD ADRAN 19 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN I LIFOGYDD YN 34 EIDDO YN LLANSTEFFAN DROS GYFNOD Y FLWYDDYN NEWYDD 2023/24.

(NODER: Gadawodd y Cynghorwyr C. Jones ac A. Lenny, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, Siambr y Cyngor tra bod y Cabinet yn ystyried y mater).

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a luniwyd yn unol ag Adran 19 o Ddeddf Llifogydd a Dŵr 2010, ar ganlyniad ymchwiliad a gynhaliwyd i lifogydd oddeutu 34 o eiddo yn Llansteffan o ganlyniad i 2 storm dros gyfnod blwyddyn newydd 2023/24. Nodwyd bod 10 cam gweithredu yn sgil yr ymchwiliad yn ymwneud â Rheoli Perygl Llifogydd, yn ogystal â 6 argymhelliad yn ymwneud â Gwytnwch Cymunedol, ac 11 cam gweithredu yn ymwneud â Gweithredu a Chynnal a Chadw ac y byddai'r Cyngor yn rheoli'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu hyn drwy'r grŵp prosiect amlasiantaeth y byddai'n parhau i fod yn gadeirydd arno yn y tymor byr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2023/24

Bu'r Cabinet yn ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2023-24 ar  Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a luniwyd o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 lle'r oedd yn ofynnol oddi gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei Amcanion Llesiant. Yn ogystal, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd dyletswydd ar y Cyngor i adrodd ar ei berfformiad ar ffurf dull hunanasesu. Nod yr adroddiad oedd bodloni'r ddau ofyniad hynny mewn un ddogfen.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ar y sail ganlynol ar gyfer pob Amcan Llesiant, yn ogystal â'r blaenoriaethau Thematig a Gwasanaeth:

- **Trosolwg o gynnydd** – yn rhoi trosolwg cryno o'n cynnydd yn erbyn y mesurau trosfwaol ar gyfer pob Amcan Llesiant, gan gysylltu hyn â phwysigrwydd yr amcan hwnnw.
- **Yn gryno – mae'n rhoi trosolwg o'n cynnydd yn erbyn pob un o'n meysydd** blaenoriaeth Thematig a Gwasanaeth.
- **Sut ydym ni'n ei wneud?** - yn rhoi dadansoddiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein mesurau allweddol fel y manylir yn y Gyfres Ddata Gorfforaethol. Darperir trosolwg manwl o'r holl fesurau yn Atodiad 5.
- **Cynnydd yn erbyn Canlyniadau** – yn darparu cynnwys ar weithgarwch o bob rhan o'r sefydliad sy'n ymwneud â'r canlyniad hwnnw neu'n mynd i'r afael ag ef.
- **Oes unrhyw un ar ei ennill?** - mae'r adran hon yn darparu astudiaethau achos neu straeon newyddion da yn ymwneud â'r 'Felly Beth?'. Y ffocws yw tynnu sylw at y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud i fywydau ein preswylwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth trwy ein gweithgaredd.
- **Sut allwn ni wneud yn well**? – mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r meysydd a nodwyd i'w gwella ac yn 'cau'r ddolen'.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gymeradwyo.**

## 10. ASESIAD PERFFORMIAD PANEL SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a baratowyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a oedd yn gosod dyletswydd ar gynghorau i drefnu i banel gynnal asesiad lefel sefydliad, corfforaethol, o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin yn olynol o gynghorwyr i'r cyngor, o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad, fel y'u diffinnir yn ôl i ba raddau y mae'r cyngor yn gwneud y canlynol:

- mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- mae ganddo drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau'r uchod.

Nododd y Cabinet, yn unol â gofynion y Deddfau, fod dogfen gwmpasu wedi'i pharatoi yn darparu cyflwyniad i Sir Gaerfyrddin, a'r Cyngor ac ystyried unrhyw

heriau a amlygwyd yn yr hunanasesiad gan gynnwys, canfyddiadau o'r adroddiadau archwilio, arolygu neu reoleiddwyr diweddar. Byddai'r ddogfen gwmpasu yn llywio dewis y Panel i gynnal yr asesiad ynghyd â Chylch Gorchwyl manwl ar gyfer yr asesiad, y byddai'r Panel a'r Cyngor wedyn yn cytuno arno. Cynigiwyd y byddai'r CPA yn cael ei gynnal yn Sir Gaerfyrddin rhwng 10 a 13 Mehefin 2025.

Gofynnwyd i'r Cabinet, wrth ystyried yr adroddiad, ychwanegu'r argymhelliad ychwanegol canlynol i'w ystyried gan y Cyngor:

“Cymeradwyo bod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi dirprwyo awdurdod i gadarnhau penodiad y Panel a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr asesiad yn dilyn trafodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol”

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

**10.1 Nodi'r gofynion ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Panel**

**10.2 Cytuno ar Ddogfen Gwmpasu Sir Gaerfyrddin**

**10.3 Cytuno ar yr amserlenni ar gyfer ymgymryd â'r Asesiad Perfformiad Panel a gynigir ar gyfer Mehefin 2025**

**10.4 Cymeradwyo bod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi dirprwyo awdurdod i gadarnhau penodiad y Panel a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr asesiad yn dilyn trafodaeth â rhanddeiliaid perthnasol.**

## 11. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2024 I MEDI 30AIN 2024.

Bu'r Cabinet yn ystyried yr Adroddiad ynghylch y Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau rheoli'r trysorlys o 1 Ebrill 2024 i 30 Medi 2024.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.**

## 12. RHYBUDD GYNNIG MASNACH DEG

Bu'r Cabinet, yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 11 Medi 2024, yn ystyried adroddiad ar y Rhybudd o Gynnig yn y cyfarfod yn ymwneud â Masnach Deg lle penderfynwyd:

- “Ailddatgan ein hymrwymiad i gefnogi Masnach Deg a'r ymgyrch Masnach Deg yn Sir Gaerfyrddin.
- Cydnabod a dathlu cyflawniadau trefi Masnach Deg yn ein sir, sydd wedi bod yn ganolog wrth eiriol dros Fasnach Deg a phrynwriaeth foesegol.
- Cefnogi Pwyllgor Llywio Masnach Deg, i oruchwylio a chydlynu gweithgareddau a mentrau Masnach Deg ar draws Sir Gaerfyrddin.
- Penodi Aelod Cabinet yn Hyrwyddwr Masnach Deg, a fydd yn mynd ati i hyrwyddo ac eiriol dros egwyddorion a mentrau Masnach Deg o fewn y Cyngor a'r gymuned ehangach.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet, mewn ymateb i'r penderfyniad, y cynigiwyd y canlynol:

1. Bydd y Cyngor yn adolygu ei drefniadau presennol ac yn ceisio ailddatgan ei ymrwymiad
2. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Grŵp Masnach Deg amlasiantaeth cymunedol (fel y nodir isod) ac yn cefnogi hyrwyddo arfer da a chyflawniadau**.**
3. Mae Pwyllgor Masnach Deg amlasiantaeth cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin eisoes yn bodoli a chynigir bod y Cynghorydd Aled Vaughan Owen (os cytunir ei benodi'n Hyrwyddwr Masnach Deg) yn ymuno â'r grŵp hwn ac yn sicrhau cysylltiadau â gwasanaethau perthnasol y Cyngor.
4. Bod y Cynghorydd Aled Vaughan Owen yn cael ei benodi'n Hyrwyddwr Masnach Deg y Cyngor.

**UNANIMOUSLY RESOLVED that:**

**12.1 Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau presennol ac yn ceisio ailddatgan ein hymrwymiad**

**12.2 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Grŵp Masnach Deg amlasiantaeth cymunedol (fel y nodir isod) ac yn cefnogi hyrwyddo arfer da a chyflawniadau.**

**12.3 Mae'r Cynghorydd Aled Vaughan Owen (os cytunir ei benodi'n Hyrwyddwr Masnach Deg) yn ymuno â Chymunedau Masnach Deg amlasiantaeth cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac yn sicrhau cysylltiadau â gwasanaethau perthnasol y Cyngor.**

**12.4 Bod y Cynghorydd Aled Vaughan Owen yn cael ei benodi'n Hyrwyddwr Masnach Deg y Cyngor.**

**13. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

_____ _____

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf